Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Bil Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru): Crynodeb o'r Bil

Mawrth 2020



www.cynulliad.cymru/ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliad.cymru/ymchwil**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:


**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 7174**
E-bost: **Katy.Orford@Cynulliad.Cymru**
Twitter: **@SeneddYmchwil**
Blog: **SeneddYmchwil.blog**
LinkedIn: **Ymchwil y Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru**



**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2020**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.



Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Ymchwil y Senedd**


# **Bil Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru):** Crynodeb o'r Bil

Mawrth 2020


**Awdur:**
Katy Orford

# Cynnwys

**1. Cyflwyniad ........ 1**

**2. Diben y Bil a'r effaith y bwriadwyd iddo'i chael ........ 2**

2.1. Maint y mater ........ 2

2.2. Galwadau am waharddiad ........ 2

2.3. Gwahardd ar sail foesegol ........ 3

**3. Crynodeb o brif ddarpariaethau'r Bil ........ 4**

3.1. Gwaharddiad ar ddefnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol ........ 4

3.2. Gorfodi ........ 5

3.3. Troseddau gan gyrff corfforaethol ac ati ........ 5

3.4. Diwygiadau sy'n ymwneud â thrwyddedu syrcasau ........ 5

3.5. Cais i'r Goron ........ 6

3.6. Cyffredinol ........ 7

3.7. Yr Atodlen – pwerau gorfodi ........ 7



**4. Ystyriaeth y Cynulliad o'r Bil ........ 8**

4.1. Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig 8

4.2. Ymatebion rhanddeiliaid i'r Bil ........ 8

4.3. Argymhellion y Pwyllgor ........ 12

4.4. Gwaith craffu ar y Bil gan Bwyllgorau eraill y Cynulliad ........ 14

**5. Cyfnod 2 ........ 15**

# 1. Cyflwyniad

Ar 8 Gorffennaf 2019, cyflwynodd Lesley Griffiths AC, Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig ('y Gweinidog'), y **Bil Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru)** ('y Bil') i'r Cynulliad. Gwnaed **Datganiad Deddfwriaethol** ar y Bil ar 9 Gorffennaf.

Amcan y Bil yw gwahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol yng Nghymru. Mae'r gwaharddiad yn seiliedig ar **sail foesegol** sy'n bosibl gyda *Deddf Cymru 2017* yn dod i rym.

Cymru yw'r wlad ddiweddaraf yn y DU i gyflwyno deddfwriaeth i wahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol. Yn yr Alban, daeth *Deddf Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau Teithiol (Yr Alban) 2018* ('Deddf yr Alban 2018') i rym ym mis Ionawr 2018. Yn Lloegr, cafodd *Deddf Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau (Rhif 2) 2019* ('Deddf y DU 2019') Gydsyniad Brenhinol ar 24 Gorffennaf 2019 a bydd yn dod i rym ym mis Ionawr 2020.

Cyn cyflwyno Bil Cymru, ym mis Hydref 2018 cynhaliodd Llywodraeth Cymru **ymgynghoriad** ar y ***Bil Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau Teithiol (Cymru) drafft*** ('y Bil drafft'). Ym mis Ionawr 2019, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **grynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad.**

Mae'r briff hwn yn amlinellu effaith arfaethedig y Bil, crynodeb o'i ddarpariaethau a'r gwaith a wnaed gan Bwyllgorau'r Cynulliad hyd yma, gan gynnwys ymatebion rhanddeiliaid i'r Bil ac argymhellion y Pwyllgor.

I gael rhagor o wybodaeth am gefndir y maes polisi hwn, gallwch ddarllen ein **briff Ymchwil y Senedd blaenorol**.

## 2. Diben y Bil a'r effaith y bwriadwyd iddo'i chael

Amcan polisi'r Bil yw gwahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol yng Nghymru.

Mae'r Bil yn ceisio ei gwneud yn drosedd i ddefnyddio anifeiliaid gwyllt (a ddiffinnir yn adran 3 o'r Bil) mewn syrcas deithiol (a ddiffinnir yn adran 4). Defnyddir anifail gwyllt os yw'r anifail yn 'perfformio' neu'n cael ei 'arddangos'.

Y person fyddai'n cyflawni'r drosedd fyddai gweithredwr (a ddiffinnir yn adran 2) y syrcas deithiol os yw'n defnyddio, neu'n peri neu'n caniatáu i berson arall ddefnyddio anifail gwyllt yn y syrcas deithiol. Mae person sy'n euog o'r drosedd hon yn agored i gael euogfarn ddiannod i ddirwy.

Ni fydd y Bil yn effeithio ar y defnydd o anifeiliaid wedi'u domestigeiddio mewn syrcasau teithiol, nac yn atal defnyddio anifeiliaid gwyllt ar gyfer adloniant mewn lleoliadau eraill, gan gynnwys syrcasau statig.

Mae crynodeb o ddarpariaethau'r Bil ar gael yn adran 3 o'r papur briffio hwn.

### 2.1. Maint y mater

Ar hyn o bryd nid oes unrhyw syrcasau o Gymru sy'n defnyddio anifeiliaid gwyllt, ond mae syrcasau o wledydd eraill yn ymweld, ac yn gallu defnyddio anifeiliaid gwyllt yn eu sioeau yn gyfreithiol.

Yn Lloegr, mae dwy syrcas deithiol yn defnyddio anifeiliaid gwyllt: Circus Mondao a Syrcas Peter Jolly. Mae'r ddwy yn ymweld â Chymru yn rheolaidd. Yn ôl Defra, ar ddiwedd 2017, roedd gan y syrcasau hyn gyfanswm o 19 o anifeiliaid gwyllt, gan gynnwys: chwe charw, pedwar sebra, tri chamel, tri racŵn, llwynog, macaw, a sebw.

### 2.2. Galwadau am waharddiad

Mae aelodau o'r cyhoedd a sefydliadau trydydd sector wedi mynegi pryder ynghylch lles rhai anifeiliaid sy'n cael eu cadw dan amodau syrcas deithiol. Mae'r pryderon yn cynnwys addasrwydd a maint llety dros dro, newidiadau mewn ymddygiad normal, perfformiad triciau 'annaturiol' ac effaith digwyddiadau cludo aml.





Yn ogystal â materion canfyddedig o les, mae pryderon wedi'u lleisio bod perfformiad 'annaturiol' anifeiliaid gwyllt er adloniant i bobl yn 'arfer sydd wedi dyddio' nad yw bellach yn dderbyniol yn foesegol.

Ers mis Hydref 2015, mae **Pwyllgor Deisebau'r Cynulliad** wedi derbyn tair deiseb yn galw am waharddiad.

### 2.3. Gwahardd ar sail foesegol

Ar hyn o bryd mae gan Weinidogion Cymru bwerau o dan *Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006* ('Deddf 2006') a fyddai'n eu galluogi i gyflwyno gwaharddiad ar ddefnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol ar sail lles anifeiliaid. Fodd bynnag, mae'r **Memorandwm Esboniadol** ar gyfer y Bil hwn yn pwysleisio "byddai angen i Weinidogion Cymru fod yn fodlon bod tystiolaeth wyddonol gref bod lles anifail sy'n cael ei gadw mewn syrcas deithiol yn dioddef er mwyn gallu troi at y pwerau dirprwyedig."

Mae Llywodraeth Cymru wedi dewis cyflwyno deddfwriaeth sylfaenol i wahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau ar sail foesegol. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi:

> Mae defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol yn codi pryderon ynghylch urddas anifeiliaid. Mae'n fwyfwy anodd cyfiawnhau cadw anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol a disgwyl iddynt berfformio triciau. [...]
>
> Mae barn gref na ellir diwallu anghenion lles anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol. Er nad oes tystiolaeth bendant bod lles anifail mewn syrcas deithiol yn dioddef mwy na lles anifail mewn amgylchedd 'artiffisial' arall, mae pobl Cymru a mudiadau'r trydydd sector wedi bod yn lobïo o blaid gwahardd yr arfer.

Yn y Memorandwm Esboniadol, mae Llywodraeth Cymru yn cyfeirio at bryderon moesegol sy'n ymwneud â gorfodi anifeiliaid gwyllt i deithio a byw mewn llety dros dro, yn ogystal â phryderon ynghylch agweddau perfformio eu ffordd o fyw.

Mae'n dod i'r casgliad 'y bydd gwaharddiad yn rhoi neges glir bod pobl Cymru'n credu bod yr arfer yn un o'r oes o'r blaen ac yn foesegol annerbyniol.'

Mae'r Memorandwm Esboniadol hefyd yn tynnu sylw at y ffaith bod gwaharddiadau eisoes ar waith yng ngwledydd eraill y DU. O'r herwydd:

> Pe na bai gwaharddiad cyfatebol yng Nghymru, Cymru fyddai'r unig wlad ym Mhrydain fyddai'n dal i ganiatáu defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol; gallent barhau i ymweld neu hyd yn oed adleoli i Gymru.

# 3. Crynodeb o brif ddarpariaethau'r Bil

Mae'r adran hon yn rhoi crynodeb o ddarpariaethau'r Bil. Mae esboniad manylach o'r darpariaethau i'w gweld yn y Memorandwm Esboniadol (yn Atodiad 1 a Rhan 1, Adran 4).

## 3.1. Gwaharddiad ar ddefnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol

Mae **Adran 1** yn ei gwneud yn drosedd i weithredwr syrcas deithiol ddefnyddio, neu beri neu ganiatáu i rywun arall ddefnyddio anifail gwyllt mewn syrcas deithiol.

Mae anifail gwyllt yn cael ei 'ddefnyddio' os yw'n 'perfformio', (e.e. mae'n gwneud triciau neu symudiadau ar gyfer cynulleidfa) neu'n 'cael ei arddangos' (e.e. os yw'n cael ei ddangos i'r cyhoedd, gan gynnwys y tu allan i brif arena'r syrcas).

Bydd trosedd wedi ei chyflawni pa un a oes angen talu i weld y perfformiad neu'r arddangosfa ai peidio. Mae person sy'n euog o'r drosedd hon yn agored i gael euogfarn ddiannod i ddirwy.

Mae **Adran 2** yn darparu mai ystyr 'gweithredwr' yw perchennog y syrcas deithiol neu berson arall nad yw'n berchennog ar y syrcas deithiol ond sy'n bennaf gyfrifol am weithrediad y syrcas. Os nad yw'r naill na'r llall yn bresennol yn y Deyrnas Unedig, 'gweithredwr' yw'r person yn y Deyrnas Unedig sy'n gyfrifol am weithrediad y syrcas deithiol.

Mae **Adran 3** yn darparu mai ystyr 'anifail gwyllt' yw anifail o fath nad yw wedi ei ddomestigeiddio yn gyffredin yn Ynysoedd Prydain. Ystyr 'anifail' yw hwnnw a noddir yn Neddf Lles Anifeiliaid 2006, ac mae'n berthnasol i anifeiliaid asgwrn cefn yn unig. Fodd bynnag, gall Gweinidogion Cymru ymestyn diffiniad Deddf 2006 i gynnwys anifeiliaid di-asgwrn-cefn, yn amodol ar amodau penodol.

Mae diffiniad 'anifail gwyllt' yn cyd-fynd â'r diffiniad yn *Neddf Trwyddedu Sŵau 1981*.

Mae **Adran 4** yn darparu mai ystyr 'syrcas deithiol' yw syrcas sy'n teithio o un man i fan arall at ddiben darparu adloniant

Er gwaethaf yr uchod, mae'r Nodiadau Esboniadol i'r Bil, a gyhoeddwyd fel rhan o'r Memorandwm Esboniadol, yn tynnu sylw at y posibilrwydd y gall fod ansicrwydd neu wahaniaeth barn ynghylch ystyron 'anifail gwyllt' a 'syrcas deithiol' fel y'u





drafftiwyd ar hyn o bryd. Yn benodol, a ystyrir bod math arbennig o anifail yn wyllt ai peidio, ac a yw math o ymgymeriad, gweithred neu adloniant yn syrcas deithiol ai peidio.

Mae'r Bil yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n nodi'r hyn sydd i'w ystyried a'r hyn i beidio â'i ystyried yn 'anifail gwyllt' (adran 3 (2)) a 'syrcas deithiol' (adran 4 (3)).

## 3.2. Gorfodi

Mae **Adran 5** yn cyflwyno'r Atodlen, sy'n gwneud darpariaeth ynghylch pwerau gorfodi.

## 3.3. Troseddau gan gyrff corfforaethol ac ati

Mae **Adran 6** yn darparu bod personau penodol sy'n gysylltiedig â gwahanol fathau o sefydliadau yn cael eu dwyn i gyfrif yn droseddol am gyflawni trosedd yn ogystal â'r sefydliad a gyflawnodd y drosedd.

Mae hyn yn golygu, er enghraifft, y gallai cyfarwyddwr cwmni fod yn atebol yn droseddol am drosedd a gyflawnwyd gan y cwmni.

Mae **Adran 7** yn nodi sut y dylid dwyn achos yn erbyn partneriaeth neu gymdeithas anghorfforedig lle honnir eu bod wedi cyflawni trosedd.

## 3.4. Diwygiadau sy'n ymwneud â thrwyddedu syrcasau

Mae **Adran 8** yn diwygio *Deddf Anifeiliaid Gwyllt Peryglus 1976* ('Deddf 1976') a *Deddf Trwyddedu Sŵau 1981* ('Deddf 1981'). Effaith hyn yw gwneud newidiadau i'r gyfundrefn drwyddedu ar gyfer syrcasau (teithiol a statig).

O dan Ddeddf 1976, mae angen trwydded i gadw 'anifail gwyllt peryglus'. Ar hyn o bryd, mae syrcasau (teithiol neu statig) wedi'u heithrio o'r gofyniad hwn. Mae adran 8(1) yn dileu'r eithriad hwn, felly bydd angen trwydded ar unrhyw syrcas yng Nghymru sy'n cadw anifail gwyllt peryglus (oni bai bod y syrcas wedi'i dal gan ddarpariaethau Deddf 1981, gweler isod).

O dan Ddeddf 1981, mae angen trwydded i weithredu 'sŵ'. Ar hyn o bryd, mae syrcasau wedi'u heithrio o'r gofyniad hwn. Diffinnir syrcas yn Neddf 1981 fel man lle mae anifeiliaid yn cael eu cadw neu eu cyflwyno'n gyfan gwbl neu'n bennaf at ddibenion perfformio triciau a symudiadau. Fel y nodwyd yn y Memorandwm Esboniadol:

> Gyda gwahardd anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol yng Nghymru, bydd yr eithriad yn adran 1(2) [o Ddeddf 1981] yn dod yn ddiangen a gellir ei ddileu ar gyfer Cymru. Effaith hyn yw y gallai darpariaethau Deddf 1981 ddod yn berthnasol i syrcas nad yw'n teithio yng Nghymru os oes ganddi anifeiliaid gwyllt. Os daw Deddf 1981 yn berthnasol i syrcas, yna o dan adran 5(1) o Ddeddf Anifeiliaid Gwyllt Peryglus 1976, mae'r syrcas honno wedi'i heithrio rhag cael trwydded o dan Ddeddf 1976.

Yn ôl y Memorandwm Esboniadol, mae'r diwygiadau hyn yn "cau bylchau lle gallai syrcas yng Nghymru gadw anifail gwyllt a chael ei heithrio rhag gofynion trwydded". Y tu hwnt i hyn, ceir esboniad cyfyngedig o'r newidiadau i'r gofynion trwyddedu a beth fydd hyn yn ei olygu yn ymarferol ar gyfer syrcasau statig a theithiol ag anifeiliaid gwyllt.

Mae'r Atodlen i Ddeddf 1976 yn rhestru'r 'mathau' o anifeiliaid yr ystyrir eu bod yn beryglus. Ni ystyrir bod rhai o'r anifeiliaid sy'n teithio ar hyn o bryd gyda'r ddwy syrcas deithiol sy'n ymweld â Chymru yn beryglus o dan y Ddeddf. Er enghraifft, mae'r llwynog wedi'i eithrio o'r rhestr o anifeiliaid peryglus.

## 3.5. Cais i'r Goron

Mae **Adran 9** y Bil yn rhwymo'r Goron. Mae'n berthnasol i bersonau sy'n gwasanaethu'r Goron fel y mae'n berthnasol i bersonau eraill, ond nid yw'n gwneud y Goron ei hun yn atebol yn droseddol. Fodd bynnag, mae adran 9 yn rhoi'r pŵer i'r Uchel Lys ddatgan yn anghyfreithlon unrhyw weithred neu anwaith yn y Goron y byddai'r Goron yn atebol yn droseddol amdano o dan y Ddeddf hon, onid oedd yn achos adran 26(3) o'r *Bil Deddfwriaeth (Cymru)* (sydd ar ei hynt drwy'r Cynulliad ar hyn o bryd).

Mae **Adran 10** yn darparu pwerau mynediad i dir y Goron. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn egluro pe 'digwyddai'r sefyllfa annhebygol fod y Ddeddf yn gymwys i'r Goron, [adrannau 9 a a10] gellid caniatáu cymryd camau tra bod statws a natur y corff hwnnw yn cael eu hystyried'.

## 3.6. Cyffredinol

Mae **Adran 11** yn sefydlu'r weithdrefn ar gyfer gwneud rheoliadau o dan y Bil. Rhaid cyflwyno rheoliadau ar ffurf ddrafft a'u cymeradwyo gan y Cynulliad cyn eu





gwneud (h.y. y weithdrefn gadarnhaol).

Mae **Adran 12** yn darparu y daw'r Bil i rym ar 1 Rhagfyr 2020. Yn ôl y Memorandwm Esboniadol, bydd hyn yn rhoi digon o amser i syrcasau teithiol addasu eu sioeau yn unol â hynny ar gyfer y tymor teithio canlynol.

Mae **Adran 13** yn darparu enw byr y Bil.

## 3.7. Yr Atodlen – pwerau gorfodi

Mae'r **Atodlen** yn rhoi pwerau i 'arolygwyr' (a benodir gan Weinidogion Cymru neu awdurdodau lleol) i orfodi'r drosedd yn adran 1 o'r Bil. Mae'n nodi maint y pwerau ac yn creu troseddau lle mae person yn rhwystro'r pwerau hynny rhag cael eu gweithredu.

Mae'r pwerau gorfodi yn cynnwys pŵer i fynd i mewn i eiddo (gan gynnwys tir ac unrhyw fan, gan gynnwys cerbyd, pabell neu strwythur symudol), ac eithrio anheddau. Darperir pwerau eraill i fynd i mewn i anheddau o dan rai amgylchiadau, pan geir gwarant gan Ynad cyn arfer y pŵer.

Mae paragraff 8 yn caniatáu i arolygydd fynd â 'phersonau eraill' ac 'offer a deunyddiau' i'r safle sy'n briodol yn nhyb yr arolygydd i'w gynorthwyo â'i ddyletswyddau. Er bod 'pobl eraill' yn parhau heb eu diffinio, mae'r Nodyn Esboniadol yn darparu arbenigwr swolegol neu gwnstabl heddlu fel enghreifftiau.

Mae paragraff 9 yn nodi'r pwerau arolygu, chwilio ac atafaelu sydd ar gael i arolygydd wrth arfer pŵer mynediad. Mae'r rhain yn cynnwys, ymysg pethau eraill, cymryd sampl o anifail.

Mae person yn cyflawni trosedd os yw'n methu â chydymffurfio â chais am gymorth a wneir yn rhesymol gan arolygydd neu os yw'n rhwystro arolygydd yn fwriadol wrth gyflawni ei ddyletswyddau. Mae person sy'n euog o drosedd yn agored i gael euogfarn ddiannod i ddirwy.

# 4. Ystyriaeth y Cynulliad o'r Bil

## 4.1. Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

Cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes y Bil at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig ar gyfer craffu Cyfnod 1.

I ddechrau, **clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y Gweinidog ar 18 Gorffennaf** a lansio **ymgynghoriad cyhoeddus** dros doriad yr haf, a ddaeth i ben ar 23 Awst. Cafwyd 24 o ymatebion ysgrifenedig.

Yn ystod tymor yr hydref, clywodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar gan randdeiliaid; academyddion, grwpiau lles anifeiliaid a chynrychiolwyr syrcasau (**18 a 26 Medi a 2 Hydref yn y drefn honno**). Cynhaliodd y Pwyllgor **ail sesiwn graffu gyda'r Gweinidog ar 10 Hydref.**

**Cyhoeddwyd adroddiad y Pwyllgor ar y Bil ar 6 Rhagfyr 2019.** Mae'r adrannau isod yn crynhoi canfyddiadau'r Pwyllgor.

## 4.2. Ymatebion rhanddeiliaid i'r Bil

### Yr angen am waharddiad

Clywodd y Pwyllgor safbwyntiau wedi'u polareiddio gan ymatebwyr ynghylch yr angen am y Bil.

Dadleuodd y rhai sy'n cefnogi'r Bil na ellir diwallu anghenion penodol anifeiliaid gwyllt mewn amgylchedd syrcas deithiol. Roeddent yn honni bod defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol yn "hen ffasiwn" ac yn "anfoesol". Roeddent yn credu mai'r unig ffordd i fynd i'r afael â phryderon o ran lles a phryderon moesegol yw drwy waharddiad.

Dadleuodd y rhai sy'n gwrthwynebu'r Bil fod gwaharddiad ar ddefnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol yn "anghymesur", o ystyried maint y broblem a'r diffyg tystiolaeth ar gyfer pryderon o ran lles anifeiliaid. Roeddent yn credu bod y gwaharddiad yn "annheg", yn "anghyfiawn" ac o bosibl yn wahaniaethol. Awgrymwyd y dylid rheoleiddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol o dan gynllun trwyddedu, tebyg i'r un sydd ar waith ar hyn o bryd yn Lloegr.





### Y ddadl foesegol

Dadleuodd llawer o'r ymatebwyr nad oedd yr achos dros waharddiad ar sail foesegol wedi'i wneud. Tynnwyd sylw hefyd at y ffaith y gallai'r cyfiawnhad moesegol a ddarperir i gefnogi gwaharddiad gael ei gymhwyso i anifeiliaid a ddefnyddir mewn lleoliadau eraill, er enghraifft, hebogyddiaeth a rasio ceffylau.

Dadleuodd ymatebwyr sy'n gwrthwynebu'r gwaharddiad mai'r prif reswm yr oedd Llywodraeth Cymru yn deddfu ar sail foesegol oedd y diffyg tystiolaeth o bryderon o ran lles.

Pwysleisiodd rhai fod moeseg yn oddrychol ac y dylai fod gan unigolion yr hawl i ddewis a ddylid ymweld â syrcasau teithiol sy'n defnyddio anifeiliaid gwyllt ai peidio.

Nododd sefydliadau lles anifeiliaid gefnogaeth gref gan y cyhoedd i waharddiad. Fodd bynnag, pwysleisiodd yr Athro Beadle (Athro Moeseg, Prifysgol Northumbria) nad yw cyffredinrwydd barn y cyhoedd yn cyfateb i gyfiawnhad moesegol.

Awgrymodd y rhai sy'n cefnogi'r gwaharddiad fod gwneud i anifeiliaid gwyllt berfformio triciau yn ddiraddiol ac yn groes i'w hurddas. Tynnodd yr Athro Beadle sylw at y ffaith bod y feirniadaeth mewn perthynas ag urddas anifeiliaid, os caiff ei derbyn, yn berthnasol i bob amgylchiad lle mae anifeiliaid yn perfformio triciau. Honnodd cynrychiolwyr y diwydiant syrcas fod perfformiadau'n seiliedig ar symudiadau ac ymddygiadau naturiol anifeiliaid; gan helpu i ddangos galluoedd unigryw yr anifeiliaid; a'u bod yn enghreifftiau o gydweithrediad rhwng pobl ac anifeiliaid.

Mynegodd sawl ymatebydd sy'n cefnogi'r gwaharddiad bryder fod y defnydd o anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol yn cael effaith negyddol ar agwedd y cyhoedd tuag at anifeiliaid. Awgrymodd cynrychiolwyr y diwydiant syrcas fod perfformiadau'n darparu budd addysgol ac yn cefnogi datblygiad agweddau cadarnhaol tuag at anifeiliaid.

### Ystyriaethau o ran lles anifeiliaid

Roedd llawer o'r dystiolaeth a gafwyd i gefnogi gwaharddiad yn canolbwyntio ar ystyriaethau o ran lles anifeiliaid. Honnodd yr ymatebwyr na ellir diwallu anghenion anifeiliaid gwyllt mewn amgylchedd syrcas deithiol.

Credai rhai sefydliadau lles anifeiliaid fod digon o dystiolaeth wyddonol i Lywodraeth Cymru gyflwyno gwaharddiad ar sail lles anifeiliaid gan ddefnyddio pwerau o dan *Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006*. Fodd bynnag, roeddent yn derbyn

rhesymeg Llywodraeth Cymru dros ei dull. Pwysleisiodd RSPCA Cymru mai ei phrif amcan yw gwahardd yr arfer cyn gynted â phosibl, ni waeth beth oedd y modd a ddefnyddir.

Honnodd cynrychiolwyr y diwydiant syrcas nad oedd unrhyw bryderon lles mewn perthynas ag anifeiliaid gwyllt yn nwy syrcas deithiol y DU. Dyfynnwyd canfyddiadau **adolygiad DEFRA 2018 o Reoliadau 2012** fel tystiolaeth i gefnogi hyn. Yn ôl DEFRA, mae'n ymddangos bod y Rheoliadau wedi sefydlu cynllun trwyddedu effeithiol i hyrwyddo a monitro safonau lles uchel ar gyfer anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol yn Lloegr.

## Ystyriaethau cydraddoldeb a hawliau dynol

Dadleuodd mwyafrif yr ymatebwyr sy'n gwrthwynebu'r gwaharddiad ei fod yn wahaniaethol oherwydd ei fod ond yn berthnasol i syrcasau teithiol. Roeddent hefyd yn dadlau bod y gwaharddiad wedi codi materion o ran hawliau dynol, a fyddai'n gadael y Bil yn agored i her gyfreithiol.

## Cwmpas y gwaharddiad

Mynegodd RSPCA Cymru, Freedom for Animals a Born Free Foundation (BFF) bryder fod cwmpas y gwaharddiad yn gul, gan dynnu sylw at y ffaith y byddai syrcasau teithiol yn dal i gael mynd ar daith gydag anifeiliaid gwyllt a'u hyfforddi. Roeddent yn dadlau nad yw'r gwaharddiad yn mynd i'r afael â phryderon ynghylch teithio dro ar ôl tro a llety dros dro sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd syrcas deithiol. Roeddent yn galw am waharddiad llwyr ar syrcasau teithiol yn cadw anifeiliaid gwyllt. Fel arall, ac fel safon ofynnol, gwnaethant alw am i gwmpas y gwaharddiad ymestyn i deithio gydag anifeiliaid gwyllt.

Roedd barn gymysg mewn tystiolaeth ynghylch p'un a ddylai cwmpas y gwaharddiad ymestyn i ddefnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau sefydlog. Pwysleisiodd RSPCA Cymru fod ei brif bryderon yn ymwneud â natur deithiol syrcas deithiol a'u hanallu i ddarparu ar gyfer anghenion anifeiliaid gwyllt. Awgrymodd y byddai rheoleiddio'r defnydd o anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau sefydlog yn fwy priodol na gwaharddiad.

Mewn cyferbyniad, roedd People for the Ethical Treatment of Animals (PETA) o'r farn y dylid ymestyn cwmpas y gwaharddiad i syrcasau sefydlog ar y sail nad oedd pryderon lles mewn perthynas ag anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol yn gyfyngedig i'r teithio aml, ond eu bod yn cwmpasu pob agwedd ar fywydau anifeiliaid mewn amgylchedd syrcas.



**Bil Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru):** Crynodeb o'r Bil

Roedd Freedom for Animals o blaid ymestyn cwmpas y gwaharddiad i anifeiliaid wedi'u domestigeiddio. Tynnodd sylw at y ffaith bod anifeiliaid a ddefnyddir mewn syrcasau teithiol yn dioddef llawer o'r un problemau ag y mae anifeiliaid gwyllt. Roedd PETA a BFF yn awgrymu y gallai fod achos i ystyried gwaharddiad ar ddefnyddio anifeiliaid wedi'u domestigeiddio fel dyhead tymor hwy. Fodd bynnag, roeddent yn fodlon bod cwmpas y gwaharddiad wedi'i gyfyngu i ddefnyddio anifeiliaid gwyllt, gan mai dod â'r arfer hwn i ben oedd eu prif flaenoriaeth.

## Ystyr "anifail gwyllt"

Roedd yr ymatebwyr sy'n cefnogi'r gwaharddiad yn gyffredinol fodlon ag ystyr "anifail gwyllt". Cydnabu sefydliadau lles anifeiliaid ei fod yn gyson ag ystyr "sefydledig" "anifail gwyllt" a geir yn *Neddf Trwyddedu Sŵau 1981*. Awgrymodd rhai o'r ymatebwyr fod angen rhagor o fanylion, naill ai yn y Bil neu mewn canllawiau cysylltiedig, er mwyn helpu i ddehongli'r term a sicrhau bod y gwaharddiad yn cael ei weithredu'n effeithiol. Yn benodol, amlygodd ymatebwyr yr angen i egluro ystyr "wedi ei ddomestigeiddio".

Roedd llawer o'r dystiolaeth a gafwyd gan ymatebwyr sy'n gwrthwynebu'r gwaharddiad yn canolbwyntio ar y graddau bod anifeiliaid syrcas yn "wyllt". Honnodd cynrychiolwyr y diwydiant syrcas a rhai o'r ymatebwyr unigol nad oedd yr anifeiliaid a ddefnyddir ar hyn o bryd gan syrcasau teithiol y DU yn "wyllt" yn yr ystyr llythrennol. Roedd Syrcas Mondao o'r farn bod ei anifeiliaid yn "egsotig" yn hytrach nag yn "wyllt".

## Ystyr "syrcas deithiol"

Roedd safbwyntiau cymysg mewn tystiolaeth ar ystyr "syrcas deithiol". Roedd rhai o'r ymatebwyr yn fodlon bod yr ystyr yn glir ac y byddai'n cyflawni bwriadau polisi y Bil. Awgrymodd eraill fod diffyg eglurder ynghylch yr ystyr ac roeddent yn galw am fynd i'r afael â hyn.

## Gorfodi ac arolygu

Roedd yr ymatebwyr yn fodlon ar y cyfan â'r darpariaethau gorfodi. Fodd bynnag, awgrymodd rhai y gellid egluro neu gryfhau'r darpariaethau.

Roedd cynrychiolwyr y diwydiant syrcas yn galw am i arolygwyr fod yn annibynnol ac â chymwysterau addas. Awgrymodd RSPCA Cymru a BFF y byddai'r angen am gyfranogiad milfeddyg yn ystod arolygiadau yn dibynnu ar yr amgylchiadau.

Credai RSPCA Cymru y dylid grymuso llysoedd i wahardd troseddwyr rhag cadw

anifeiliaid gwyllt, a allai atal troseddau mynych. Byddai hyn yn gyson â *Deddf Anifeiliaid Gwyllt Peryglus 1976*. Mynegwyd barn debyg gan Freedom for Animals, a alwodd am bwerau i symud anifeiliaid o'r syrcas deithiol yn dilyn euogfarn am drosedd.

Awgrymodd PETA y dylid ymestyn y pwerau archwilio i alluogi arolygydd i atafael mewn anifail mewn rhai amgylchiadau, er enghraifft, os oes rheswm i gredu ei fod yn sâl neu'n dioddef. Mynegodd RSPCA Cymru, BFF a Dr Humphreys (Darlithydd mewn Athroniaeth, Prifysgol Cymru) farn debyg.

### Dyfodol yr anifeiliaid yn dilyn gwaharddiad

Mynegodd sefydliadau lles anifeiliaid, Dr Humphreys, a Chymdeithas Milfeddygon Prydain (BVA) a Chymdeithas Sŵolegol Filfeddygol Prydain (BVZS) bryder ynghylch dyfodol yr 19 o anifeiliaid gwyllt a ddefnyddir ar hyn o bryd mewn syrcasau teithiol yn y DU yn dilyn y gwaharddiad. Honnodd ymatebwyr y byddai lles yr anifeiliaid yn cael ei gyfaddawdu pe byddent yn parhau i deithio gyda syrcasau, neu fel arall, yn cael eu gadael yn ystod y gaeaf.

Credai sawl ymatebydd y dylid ailgartrefu anifeiliaid yn dilyn y gwaharddiad, er enghraifft, mewn gwarchodfeydd.

Dywedodd Circus Mondao wrth y Pwyllgor y byddai'n niweidiol i'w hanifeiliaid gael eu tynnu i ffwrdd o'u teuluoedd. Mynegodd bryder hefyd y gallai'r gwaharddiad arwain at adael anifeiliaid yn ystod y gaeaf. Fodd bynnag, cadarnhaodd Circus Mondao a Peter Jolly's Circus eu bod yn bwriadu cadw a pharhau i deithio gyda'u hanifeiliaid gwyllt yn dilyn y gwaharddiad.

## 4.3. Argymhellion y Pwyllgor

Yn dilyn ystyriaeth y Pwyllgor o'r dystiolaeth, gwnaeth wyth argymhelliad.

**Argymhelliad 1**. Mae'r Pwyllgor yn unfrydol yn ei gefnogaeth barhaus i les pob anifail. Fodd bynnag, nid ydym wedi gallu dod i farn unfrydol ynghylch p'un a ddylai'r Bil hwn symud yn ei flaen. Mae mwyafrif o aelodau'r Pwyllgor yn cefnogi egwyddorion cyffredinol y Bil. Rydym yn argymell bod y Cynulliad yn cefnogi egwyddorion cyffredinol y Bil.

**Argymhelliad 2**. Rydym yn argymell bod y Gweinidog yn darparu eglurhad mwy cynhwysfawr am y canlynol:





- pam nad yw cwmpas y gwaharddiad yn ymestyn i anifeiliaid gwyllt sy'n teithio gyda syrcasau teithiol;
- pam mae'r ddadl foesegol dros wahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau sefydlog yn llawer gwannach nag ar gyfer syrcasau teithiol; a
- pham nad yw'r ddadl foesegol dros wahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol yr un mor berthnasol i anifeiliaid wedi'u domestigeiddio.

**Argymhelliad 3**. Rydym yn argymell bod y Bil yn cael ei ddiwygio i gynnwys darpariaeth i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau statudol i gefnogi'r broses o weithredu'r gwaharddiad. Dylai'r canllawiau hyn gael eu datblygu ar y cyd â rhanddeiliaid perthnasol, a'u cyhoeddi i gyd-fynd â dyddiad dod i rym y Bil.

**Argymhelliad 4**. Rydym yn argymell bod canllawiau statudol i gefnogi'r broses o weithredu'r gwaharddiad yn cynnwys canllawiau cynhwysfawr ar ystyr "anifail gwyllt" ac "wedi eu domestigeiddio". Dylai hyn gynnwys enghreifftiau o'r mathau o anifeiliaid a fydd, ac na fyddant yn cael eu hystyried yn "wyllt".

**Argymhelliad 5**. Rydym yn argymell bod canllawiau statudol i gefnogi'r broses o weithredu'r Bil yn cynnwys canllawiau cynhwysfawr ar ystyr "syrcas deithiol" a'r mathau o ymgymeriad, gweithred o adloniant sydd i'w ystyried, neu nad yw'n cael ei ystyried, fel syrcas deithiol. Rhaid bod gwahaniaeth clir rhwng syrcasau teithiol ac Arddangosfeydd Teithiol o Anifeiliaid.

**Argymhelliad 6**. Rydym yn argymell bod canllawiau statudol i gefnogi'r broses o weithredu'r Bil yn cynnwys canllawiau cynhwysfawr ar pryd y byddai "arddangos" anifeiliaid gwyllt y tu allan i brif arena'r syrcas mewn modd llai anffurfiol yn drosedd. Rhaid i'r canllawiau egluro na fyddai anifeiliaid gwyllt sydd yn yr awyr agored at ddibenion cyfreithlon ond sy'n weladwy gan y cyhoedd, yn drosedd.

**Argymhelliad 7**. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod syrcasau sy'n debygol o gael eu heffeithio gan y newidiadau mewn gofynion trwyddedu sy'n deillio o Adran 8 y Bil yn ymwybodol o'r newidiadau hynny, ac yn deall eu goblygiadau.

**Argymhelliad 8.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn adrodd yn ôl ar drafodaethau gyda DEFRA ynghylch y gefnogaeth a'r cyngor a fydd ar gael ar gyfer dwy syrcas deithiol y DU ynghylch opsiynau ar gyfer ailgartrefu eu hanifeiliaid gwyllt yn dilyn y gwaharddiad.

### 4.4. Gwaith craffu ar y Bil gan Bwyllgorau eraill y Cynulliad

Cafodd Pwyllgor Cyllid a Phwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y Cynulliad dystiolaeth gan y Gweinidog ar eu meysydd priodol o ddiddordeb.

Cwestiynodd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y diffiniadau o 'anifail gwyllt' a''syrcas deithiol' a ddefnyddir yn y Bil. Er enghraifft, nododd y Pwyllgor fod y diffiniad o 'anifail gwyllt' yn *Neddf Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau Teithiol (Yr Alban) 2018* yn rhoi diffiniad manylach a mwy penodol na'r un a gynhwysir ym Mil Cymru. Mae'r Pwyllgor wedi argymell y dylai'r Gweinidog, yn ystod y ddadl Cyfnod 1, egluro'r diffiniadau o 'anifail gwyllt' a 'syrcas deithiol' y darperir ar eu cyfer yn y Bil, ac egluro sut a pham mae'r diffiniadau hyn yn wahanol i'r rhai a ddefnyddir yn y Deddfau cyfatebol yn yr Alban a Lloegr.

**Cyhoeddodd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ei adroddiad ar y Bil ar 4 Rhagfyr 2019** cyn y ddadl Cyfnod.

**Ysgrifennodd y Pwyllgor Cyllid at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig** gyda'i farn ar y Bil.

> Mae'r Pwyllgor Cyllid yn fodlon bod y costau ariannol a'r manteision fel y'u nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn rhesymol ac yn briodol. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn ymwybodol o'r costau heb eu meintioli i awdurdodau lleol a syrcasau nad ydynt wedi'u nodi. Byddai'r Pwyllgor wedi disgwyl i'r amcangyfrif gorau gael ei gynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.





## 5. Cyfnod 2

**Cynhaliwyd trafodion Cyfnod 2** yng nghyfarfod y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig ar 5 Chwefror 2020.

Cyflwynodd aelodau'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig bedwar deg pump o welliannau. Ni chyflwynodd Llywodraeth Cymru ddim gwelliannau.

Gellir dod o hyd i'r gwelliannau a gyflwynwyd ar **wefan y Bil** fel: Hysbysiad ynghylch Gwelliannau: Rhestr o Welliannau wedi'u Didoli; a Grwpio Gwelliannau.

Ni chytunodd y Pwyllgor ar unrhyw un o'r gwelliannau.

Dechreuodd Cyfnod 3 ar 6 Chwefror. Bwriedir cynnal y ddadl Cyfnod 3 ar 17 Mawrth.